

Cynnig i adolygu'r Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn ardaloedd Blaenau a Llandybïe

Dogfen Ymgynghori



sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Rhif ffôn: 01267 246618


Rhagair

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisiau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses ddysgu ac i lesiant plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin nifer fawr o arweinwyr addysg ac athrawon dawnus, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a gynlluniwyd fel eu bod yn bodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, mae gofyn inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion yn y manau iawn a bod ganddynt adeiladau a chyfleusterau sy'n addas i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori'n dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys partion penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Rhestr Byrfoddau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
ND	Nifer derbyn
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
CC	Cynradd Cymunedol
DFf	Dwy Ffrwd
CS	Cyfrwng Saesneg
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
CALL	Cyferth ag Amser Llawn
ALI	Awdurdod Lleol
MCYC	Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru
RhMA	Rhaglen Moderneiddio Addysg
NOR	Nifer y disgyblion ar y gofrestr
CYBLD	Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
CSCA	Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
LIC	Llywodraeth Cymru
CC	Cyfrwng Cymraeg

Cynnwys

Cyflwyniad	6
Yr ysgolion sy'n destun y cynigion	6
Cefndir	7
Y Rhesymeg dros Newid	8
Y Cynnig	13
Y Broses Ymgynghori	31
Atodiad A – Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned	35
Atodiad B – Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg	37
Atodiad C – Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	39
Atodiad D – Dwyieithrwydd	46

Cyflwyniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i adolygu nifer a math yr ysgolion y mae'n eu cynnal yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ynghylch y trefniadau addysg yn y dyfodol yn Llandybie a Blaenau.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r ddarpariaeth a'r opsiynau presennol i benderfynu ar yr ateb gorau ar gyfer diwallu anghenion y dyfodol.

Yr ysgolion sy'n destun y cynigion

		Ysgol Gynradd Blaenau	Ysgol Gynradd Llandybie
Lleoliad yr Ysgol		SA18 3BQ	SA18 3JB
Ystod Oedran		4-11	3-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyr, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol
Categori laith		Cyfrwng Cymraeg	Trosiannol
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (lonawr 2020)	Oedran Meithrin	5	28
	Derbyn – B.6	29	201
	Cyfanswm	34	229
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol	lonawr 2019	36	238
	lonawr 2018	38	235
	lonawr 2017	50	230
	lonawr 2016	55	223
Amcanestyn iad ynghylch Nifer y Disgyblion	lonawr 2021	31	237
	lonawr 2022	33	236
	lonawr 2023	32	236
	lonawr 2024	34	219
	lonawr 2025	35	228
Nifer y lleoedd (yn cynnwys oedran meithrin)		99	238
Cost fesul disgybl (2020/21)		£4,379	£3,732
Cyllideb Ysgol (2020/21)		£149k	£823k
Canlyniad Arolygiad Estyn		Estyn	Estyn
Categori Cyflwr Adeilad		C	C

Cefndir

Ysgol Gynradd Blaenau

Mae Ysgol Gynradd Blaenau yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Blaenau. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion wedi gostwng sydd wedi arwain at addysgu disgyblion mewn dosbarthiadau oedran cymysg gyda hyd at bedwar grŵp blwyddyn. Dangosodd CYBLD Ionawr 2020 fod 34 o ddisgyblion yn yr ysgol a bod 65 o leoedd gwag.

Er bod 44 o ddisgyblion yn byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd Blaenau, **dim ond 8 o'r disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgol**, sy'n golygu bod 36 o ddisgyblion sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol yn mynychu ysgolion eraill.

Yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfredol ynghylch nifer y disgyblion, amcangyfrifir y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel yn y dyfodol rhagweladwy.

Mae adeilad Ysgol Gynradd Blaenau mewn cyflwr gwael. Byddai moderneiddio'r adeilad a darparu'r cyfleusterau y byddai'r Cyngor yn dymuno eu darparu yn waith sylweddol, ac ni ellid cyfiawnhau hynny o ystyried nifer isel a gostyngol y disgyblion.

Barnodd arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol, a gwblhawyd ym mis Ionawr 2016, fod perfformiad presennol yr ysgol a'r rhagolygon ar gyfer gwella yn 'ddigonol'.

Yn ogystal, mae cael cyn lleied o ddisgyblion yn yr ysgol yn effeithio ar ddyraniad cyllideb yr ysgol. Mae'r ysgol wedi bod mewn diffyg ers 2011/12 ac yn parhau i fod â diffyg o £83,895 am 2019/20. Y dyraniad cyllid gwreiddiol ar gyfer 2020/21 oedd £149k a'i rhagolwg am y flwyddyn yw y bydd y diffyg yn cynyddu.

Ysgol Gynradd Llandybïe

Mae Ysgol Gynradd Llandybïe yn ysgol gynradd drosiannol (sy'n gweithio tuag at fod yn un cyfrwng Cymraeg) 3-11 oed ym mhentref gwledig Llandybïe, tua dwy filltir i'r gogledd o dref Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Ysgol Gynradd Llandybïe yn ysgol lwyddiannus a oedd yn llawn erbyn 2019 ac er bod gostyngiad bach yn nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2020 mae'r duedd hon yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld. O ganlyniad mae'r Awdurdod Lleol yn datblygu cynllun i gynyddu nifer lleoedd Ysgol Gynradd Llandybïe i 315 a 45 o leoedd meithrin drwy ddarparu ysgol newydd â chyfleusterau addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif ynghyd â manau awyr agored gwell ar safle newydd yn y dalgylch presennol yn lle'r adeilad presennol cyflwr C.

Bydd y buddsoddiad arfaethedig hwn yn mynd i'r afael â chyflwr gwael yr adeilad a'r diffyg lle a darpariaeth yn yr ysgol bresennol trwy ddarparu lleoedd digonol ar gyfer y galw presennol a'r galw arfaethedig mewn ysgol categori **A**.

Nododd arolygiad mwy diweddar gan Estyn, a gwblhawyd ym mis Medi 2013, fod yr ysgol yn defnyddio cyfleusterau yng nghaeau chwarae y pentref lleol ar gyfer ei gweithgareddau chwaraeon ar hyn o bryd. Bydd gan yr adeilad ysgol newydd ei Faes Chwarae Amldefnydd ei hun yn ogystal â chae chwaraeon a fydd yn rhan o ddyluniad yr ysgol newydd.

Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf bu cynnydd parhaus yn nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ffrwd cyfrwng Cymraeg a gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ffrwd Saesneg.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am roi'r addysg orau posibl i bob disgybl ac mae'n credu bod darparu cyfleoedd dwyieithog yn chwarae rhan yn hyn. Mae hyn yn cyd-fynd ag un o amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2017-2020 sef **sicrhau "bod yr holl ddisgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith yn rhugl erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn unol â'u cam datblygiad disgwylidig."** Y ffordd orau o greu unigolion hyderus, dwyieithog yw trwy drochi disgyblion yn yr iaith Gymraeg, ac, o ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu newid natur y ddarpariaeth.

Y Rhesymeg dros Newid

Ysgol Gynradd Blaenau

Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Blaenau dros y pum mlynedd diwethaf. Gostyngodd nifer y disgyblion o 55 yn Ionawr 2016 i 34 yn Ionawr 2020.

O ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y disgyblion, mae nifer y lleoedd gwag yn yr ysgol wedi cynyddu. Mae 65 o leoedd gwag (66%) yn yr ysgol ar hyn o bryd (Ionawr 2020).

Fel y nodwyd yn y ddogfen Côt Trefniadaeth Ysgolion (2018) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru:

*Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, **dylai** awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a **dylent** ystyried pa un ai i wneud cynigion i'w gwaredu os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o leoedd gwag fel 25% neu fwy o leoedd yr ysgol (fel y'u diffinnir yng nghylchlythyr 21/2011) ac o leiaf 30 o leoedd heb eu llenwi.*

Os caiff y cynnig hwn ei weithredu bydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar leoedd gwag yn yr ardal.


Mae Ysgol Gynradd Blaenau yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod o leiaf 70% o'r cyllid yn cael ei ddsbarthu ar sail niferoedd disgyblion. Mae'r fformiwla gyllido bresennol yn rhoi cymorth i ysgolion llai drwy dâl atodol ar ffurf cyfandaliad a thâl atodol ffedereiddio i ysgolion sydd mewn ffederasiwn ffurfiol neu anffurfiol. Mae'r ysgol hefyd yn cael cymorth grant ychwanegol o achos nifer fach y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi bod mewn diffyg ers 2011/12 ac yn parhau i fod â diffyg o £83,895 am 2019/20. Y dyraniad cyllid gwreiddiol ar gyfer 2020/21 oedd £149k a'i rhagolwg am y flwyddyn yw y bydd y diffyg yn cynyddu.

Mae'r diffyg yn y gyllideb, y gostyngiad yn nifer y disgyblion, a thoriadau i'r gyllideb wedi rhoi'r ysgol mewn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd.

Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion a chynnydd yn nifer y lleoedd gwag wedi bod yn her i Ysgol Gynradd Blaenau yn y pum mlynedd diwethaf.

Mae'r graff isod yn amlygu'r gostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgol dros y pum mlynedd diwethaf.



Mae cael cyn lleied o ddisgyblion yn ei gwneud yn anodd iawn i'r ysgol ddarparu ehangder a dyfnder yn y profiadau cwricwlaidd a chymdeithasol y mae ar ddisgyblion eu hangen i ddatblygu'n llawn.

Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd

Dangosir y lleoedd gwag ar hyd y blynyddoedd diwethaf yn Ysgol Gynradd Blaenau yn y tabl canlynol:

	Ion 16	Ion 17	Ion 18	Ion 19	Ion 20
Ysgol Gynradd Blaenau	99	99	99	99	99

Cyfanswm nifer y lleoedd					
Nifer y Disgyblion	55	50	38	36	34
Lleoedd gwag	44	49	61	63	65
% y lleoedd gwag	44%	49%	62%	64%	66%


Fel y gellir gweld o'r tabl, mae canran sylweddol o leoedd gwag wedi bod yn Ysgol Gynradd Blaenau yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae canran lleoedd gwag Ysgol Gynradd Blaenau yn y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn fwy na 25%, ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hynny'n 'sylweddol'. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori awdurdodau lleol i adolygu eu darpariaeth lle bo mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal gyfan.

Ysgol Gynradd Llandybïe

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei lunio mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llandybïe, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin, a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog ac ymrwymiad i ddarparu ysgolion categori A sydd â digon o leoedd i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir ac sydd â chyfleusterau addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif.

Roedd Ysgol Gynradd Llandybïe yn llawn erbyn 2019 ac er bod gostyngiad bach yn nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2020 mae'r duedd hon yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld. O ganlyniad mae'r Awdurdod Lleol yn datblygu cynllun i gynyddu nifer lleoedd Ysgol Gynradd Llandybïe i 315 a 45 o leoedd meithrin drwy ddarparu ysgol newydd â chyfleusterau addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif ar safle newydd yn lle'r adeilad presennol cyflwr C. Bydd y buddsoddiad arfaethedig yn mynd i'r afael â chyflwr gwael yr adeilad a diffyg lle digonol yn yr ysgol bresennol drwy ddarparu ysgol newydd ar safle newydd â chyfleusterau ar gyfer yr 21^{ain} ganrif.

Nifer y Disgyblion (ffigurau CYBLD Ionawr)



Fel y gwelir o'r graff uchod, mae cynnydd cyson wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llandybïe dros y pum mlynedd diwethaf. Erbyn Ionawr 2019 roedd yr ysgol yn llawn, sef 238 o ddisgyblion, ac er bod niferoedd disgyblion wedi gostwng ychydig erbyn Ionawr 2020 i 229 o ddisgyblion dim ond 4% o leoedd gwag sydd gan yr ysgol.

Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd

Dangosir y lleoedd gwag ar hyd y blynyddoedd diwethaf yn Ysgol Gynradd Llandybïe yn y tabl canlynol:

	Ion 16	Ion 17	Ion 18	Ion 19	Ion 20
Ysgol Gynradd Llandybïe Cyfanswm nifer y lleoedd	302	246	238	238	238
Nifer y Disgyblion	223	230	235	238	229
Lleoedd gwag	79	16	3	0	9
% y lleoedd gwag	26%	7%	1%	0%	4%

Fel y gwelir o'r tabl uchod, dim ond 4% o'r lleoedd sy'n wag yn Ysgol Gynradd Llandybïe erbyn mis Ionawr 2020.

Rhaniad Saesneg / Cymraeg yr Ysgol Gyfan – Ysgol Gynradd Llandybïe

		Cyfnod Sylfaen Rhan-amser	Cyfnod Sylfaen Amser Llawn	Cyfnod Allweddol 2	Cyfanswm
2020	Cyfrwng Saesneg	0	0	11	11
	Cyfrwng Cymraeg	17	85	116	218
	Cyfanswm	17	85	127	229
2019	Cyfrwng Saesneg	0	0	15	15
	Cyfrwng Cymraeg	17	107	99	223
	Cyfanswm	17	107	114	238
2018	Cyfrwng Saesneg	0	0	18	18
	Cyfrwng Cymraeg	11	120	86	217
	Cyfanswm	11	120	104	235
2017	Cyfrwng Saesneg	0	0	22	22
	Cyfrwng Cymraeg	0	132	76	208
	Cyfanswm	0	132	98	230


2016	Cyfrwng Saesneg	0	4	20	24
	Cyfrwng Cymraeg	0	126	73	199
	Cyfanswm	0	130	93	223

(Data CYBLD Ionawr)

Mae'r tabl uchod yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg wedi gostwng o 24 yn 2016 i 11 yn 2020.

Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf bu cynnydd parhaus yn nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ffrwd cyfrwng Cymraeg a gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ffrwd Saesneg.

Mae'r siart canlynol yn dangos nifer y disgyblion yn y ffrydiau iaith yn Ysgol Gynradd Llandybïe rhwng Ionawr 2016 a 2020 (CYBLD).



Mae'r siart yn dangos mai dim ond 11 disgybl oedd yn mynychu'r ffrwd Saesneg yn Ionawr 2020.

Y Cynnig

- Cau Ysgol Gynradd Blaenau ar 31 Awst 2021.
- O 1 Medi 2021 bydd pob disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Llandybïe gan ddefnyddio'r ddau safle (Ysgol Gynradd Llandybïe a'r hen Ysgol Gynradd Blaenau) gan gynyddu nifer y lleoedd i 287 + 50 o leoedd meithrin.
- Ailddynodi dalgylch Ysgol Gynradd Llandybïe er mwyn cynnwys dalgylch hen Ysgol Gynradd Blaenau o 1 Medi 2021.
- Newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Llandybïe i gyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2021.
- Adleoli Ysgol Gynradd Llandybïe i safle ysgol newydd a chynyddu nifer ei lleoedd i 315 + 45 o leoedd meithrin o fis Medi 2024, pan gynigir bod yr ysgol yn symud i'w hadeilad newydd.

Mae nifer y lleoedd trawsnewidiol a nodir uchod (287 + 50 o leoedd meithrin) yn cyfuno nifer y lleoedd presennol yn y ddwy ysgol gan gynnwys y lleoedd meithrin. O ganlyniad, mae'r lleoedd meithrin yn nifer y lleoedd trawsnewidiol yn fwy na chapasiti'r ysgol yn derfynol. Mae ffigur terfynol nifer y lleoedd (315 + 45 o leoedd meithrin) yn diwallu angen a galw'r ardal yn y tymor hir.


Lleoliad adeilad ysgol newydd

Fel rhan o Raglen Moderneiddio Addysg Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, mae safle arfaethedig sy'n cael ei ffafrio wedi cael ei nodi ar gyfer lleoliad adeilad newydd yr ysgol. Mae lleoliad y safle arfaethedig a ffefrir o fewn milltir i safle presennol Ysgol Gynradd Llandybïe ond mae dros filltir o bellter o Ysgol Gynradd Blaenau. Er bod y cynigion a nodir yn y ddogfen hon yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Sir a bod y buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn amodol ar gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, mae angen ymgynghori ar adleoli Ysgol Gynradd Llandybïe er mwyn bodloni'r Côt Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Mae'r map o'r awyr a ddangosir ar dudalen 14 yn dangos y lleoliad arfaethedig* a ffefrir ar gyfer adeilad newydd yr ysgol.

*yn amodol ar gael pob cymeradwyaeth berthnasol

Y lleoliad arfaethedig a ffefrir ar gyfer adeilad newydd yr ysgol



Manteision ac Anfanteision y cynnig

Manteision

- Digon o leoedd cyfrwng Cymraeg i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir.
- Gwell cyfleusterau, sy'n addas i'r 21^{ain} ganrif, er mwyn galluogi cyflwyno cwricwlwm modern llawn.
- Mwy o fynediad at gyfleoedd dysgu, cyfleoedd chwaraeon a chyfleoedd diwylliannol.
- Darparu addysg gynradd mewn adeiladau sy'n bodloni dyheadau rhaglen amlinellol strategol Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} ganrif yr Awdurdod Lleol.
- Sicrhau defnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol.
- Gwella effeithlonrwydd ynni yr ystad.
- Lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ardal er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a'i gyfleusterau.
- Amgylchedd addysgu mwy boddhaus yn gwella morâl.
- Strwythur staffio, rheoli a chefnogi mwy effeithiol.
- Mwy o gyfle o ran datblygiad proffesiynol a phersonol athrawon.
- Amgylchedd a fydd yn ysgogi dysgu i'r dysgwyr.
- Gwella defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol.
- Mannau allanol gwell a lleoedd pwrpasol i chwarae yn yr awyr agored.
- Cyfleusterau meithrin addas i'r diben yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Anfanteision

- Angen proses statudol i ysgogi newid.
- Cyllid er mwyn buddsoddi yn dibynnu ar gymeradwyo achos busnes.
- Amser teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion.
- Cymuned Blaenau yn colli presenoldeb yr ysgol yn y gymuned/ardal gyfagos.

Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

Risg	Y Mesur i Liniaru'r Risg
1. Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r broses.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018
2. Methu â chael cymeradwyaeth i'r achosion busnes	- Dilyn canllawiau achos busnes fel y'u nodir yn Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif a chanllawiau achos busnes Rhaglen Cyllido Addysg 2018
3. Ymgynghoriad anfoddhaol â'r gymuned	- Datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgynghori'n rheolaidd i fynd i'r afael â phryderon

Dalgylch yr Ysgol

Bydd dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llandybïe yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd Blaenau (os gweithredir y cynnig i ddod ag Ysgol Gynradd Blaenau i ben).

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg Uwchradd.

Staffio

Rhoddir sylw i'r goblygiadau o ran staffio yn unol â Gweithdrefnau a Pholisi Adleoli Staff y Cyngor Sir.

Mae gan yr Awdurdod Lleol bolisiâu a gweithdrefnau staffio yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion a bydd y rhain yn cael eu gweithredu os bydd angen. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi staff yr ysgol i gael cyflogaeth arall addas os bydd modd drwy brosesau adleoli, os bydd angen.

Yn ogystal, bydd yn darparu cymorth ieithyddol i staff addysgu a staff cymorth ar lefel briodol ac yn ôl anghenion unigol i sicrhau bod gan bob aelod o staff y sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno'r cwricwlwm yn Gymraeg.

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg

Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn ardal Llandybie drwy ffurfioli cynnydd yr ysgolion ar hyd continwmm yr iaith Gymraeg. Os caiff y cynnig ei weithredu bydd yr ysgol yn newid o fod yn ysgol drosiannol i ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cefnogi'r targedau a amlinellwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2017-2020 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Lleol ac mae'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn cefnogi'r Targedau Iaith Gymraeg sirol newydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg dros 10 mlynedd yn ogystal â chyd-fynd â'r Dynodiadau Ysgolion newydd yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol Gynradd Blaenau ac Ysgol Gynradd Llandybie eu cyllido yn unol â pholisi Ariannu Teg y Cyngor Sir a byddant yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

Derbyniadau Cyfalaf

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynnig hwn yn cael eu hailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

Tir ac Adeiladau

Un safle ysgol diangen – Ysgol Gynradd Blaenau. Os mabwysiedir y cynnig, trosglwyddir yr eiddo i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol o'r Adran Adfywio a Pholisi er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi ynghylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.

Trefniadau Pontio

Yn ystod y cyfnod pontio bydd y disgyblion yn aros ar eu safleoedd ysgol presennol o dan reolaeth Ysgol Llandybie hyd nes bod yr adeilad newydd yn barod i symud iddo er mwyn darparu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Blaenau ac Ysgol Llandybie.

Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r iaith bresennol. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newid yn achos disgyblion presennol sy'n mynychu Ysgol Llandybïe.

Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Blaenau ac Ysgol Gynradd Llandybïe.

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant,
Caerfyrddin. SA31 3HB
Rhif Ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Asesiad o'r Effaith ar Gludiant

Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor. Os caiff y cynnig ei weithredu, mae tua 1.3 milltir rhwng Ysgol Blaenau a'r ysgol newydd yn Llandybïe.

Bydd adeilad ysgol newydd Llandybïe yn cael ei gynllunio i gynnwys mannau diogel ar gyfer gollwng a chasglu disgyblion. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, edrychir ar lwybrau diogel i'r ysgol fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gludiant ar gyfer adeilad newydd yr ysgol.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Gweler Atodiad A o'r ddogfen ymgynghori hon i gael manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweler Atodiad B o'r ddogfen ymgynghori hon i gael manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler Atodiad C o'r ddogfen ymgynghori hon i gael manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd.

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu dewis a ffeirir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau.

Y Sefyllfa Bresennol – dim newid i Ysgol Gynradd Blaenau	
Manteision	Anfanteision
Dim newid i'r rhanddeiliaid	Disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn adeilad cyflwr C
Ni fydd angen proses statudol	Heb fod yn ymarferol yn ariannol yn y tymor hir
Cymuned Blaenau yn cadw presenoldeb ysgol	Disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oedran cymysg
	Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sy'n rhychwantu'r cyfnodau allweddol
	Diffyg arweinyddiaeth gynaliadwy
	Nifer y disgyblion yn gostwng a nifer uchel o leoedd gwag
	Cyfleusterau annigonol heb fawr neu ddim cyfleusterau addysgu awyr agored
	Cyfleusterau modern annigonol i gefnogi'r cwricwlwm newydd a dysgu digidol

Y Sefyllfa Bresennol – dim newid i Ysgol Gynradd Llandybie	
Manteision	Anfanteision
Dim newid i'r rhanddeiliaid	Disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn adeilad cyflwr C
Ni fydd angen proses statudol	Ardaloedd awyr agored anaddas
Nid oes angen cymeradwyo Achos Busnes	Yr ysgol yn llawn
	Cyfleusterau modern annigonol i gefnogi'r cwricwlwm newydd a dysgu digidol
	Cyfleusterau annigonol i'w rhannu â'r gymuned leol
	Lle/cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu'r safle presennol heb gaffael tir

Ffederasiwn - Ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Llandybie ac Ysgol Gynradd Blaenau	
Manteision	Anfanteision
Cyfle i rannu rheolaeth, cyfrifoldeb corff llywodraethu ac arbenigedd cwricwlaidd	Angen proses gyfreithiol
Sicrhau mwy o werth am arian	Ni fydd yn mynd i'r afael â'r diffyg o ran y gyllideb yn Ysgol Gynradd Blaenau.
Galluogi ysgolion i gronni adnoddau a staff	Nid yw'n ymdrin â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion a'r lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Blaenau.
Ymestyn ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth addysg	Disgyblion yn dal i gael eu haddysgu mewn adeiladau cyflwr C
Ymateb i anghenion ehangach disgyblion	Nid yw'n darparu cyfleusterau modern addas i'r 21 ^{ain} ganrif i ddisgyblion
Ehangu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff	Rheoli amser pennaeth dros ddwy ysgol
	Angen ad-drefnu'r ddau gorff llywodraethu
	Mwy o waith i lywodraethwyr yn y flwyddyn gyntaf o Ffedereiddio

Y Sefyllfa Bresennol yn parhau ar gyfer Ysgol Gynradd Blaenau/Adeilad Ysgol Newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llandybie	
Manteision	Anfanteision
Dim newid i randdeiliaid Ysgol Gynradd Blaenau	Disgyblion Ysgol Gynradd Blaenau yn parhau i gael eu haddysgu mewn adeilad ysgol cyflwr C
Dim cynnydd yn yr amserau teithio i Ysgol Gynradd Blaenau	Nid yw'n ymdrin â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion a'r lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Blaenau
Cymuned Blaenau yn cadw presenoldeb ysgol	Nid yw'n mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn Ysgol Gynradd Blaenau
Darperir adeilad a chyfleusterau addas i'r 21 ^{ain} ganrif i ddisgyblion Ysgol Gynradd Llandybie	Angen cymeradwyo Achos Busnes i sicrhau cyllid ar gyfer adeilad ysgol newydd i Ysgol Gynradd Llandybie
Mynd i'r afael â'r pwysau ar leoedd yn Ysgol Gynradd Llandybie	Angen prosesau statudol i gynyddu nifer y lleoedd a newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Llandybie
Rhoddir cyfleusterau modern i Ysgol Gynradd Llandybie er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd a dysgu digidol	
Gwella'r cyfleusterau cymunedol a ddarperir trwy fuddsoddi yng nghymuned Llandybie	
Darperir amgylchedd dysgu o ansawdd da i Ysgol Gynradd Llandybie er mwyn	

cefnogi llesiant disgyblion a gwella cynnydd dysgwyr	
--	--

Yr Opsiwn a Ffefrir	
Dod ag Ysgol Gynradd Blaenau i ben a chynnwys ei dalgylch yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd Llandybïe	
Manteision	Anfanteision
Bydd disgyblion Ysgol Gynradd Blaenau yn aros yn eu hadeilad ysgol presennol hyd nes y symudir i'r ysgol newydd*	Cymuned Blaenau yn colli presenoldeb ysgol pan fydd disgyblion yn symud i adeilad ysgol newydd*
Yn mynd i'r afael â'r lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Blaenau a'r pwysau ar leoedd yn Ysgol Gynradd Llandybïe	Bydd angen proses statudol
Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei addysgu mewn ysgolion cyflwr A	Angen cymeradwyo Achos Busnes
Darperir cyfleusterau modern i bob disgybl er mwyn cefnogi'r cwricwlwm newydd a dysgu digidol	Newid i randdeiliaid
Mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn Ysgol Gynradd Blaenau	
Sicrhau mwy o werth am arian	
Darparu cyfleusterau cymunedol gwell at ddefnydd cymunedau Blaenau a Llandybïe	

***Cymeradwyo achos busnes/cyllid Llywodraeth Cymru**

Yr ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt

Enw'r Ysgol	Ysgol Gynradd Blaenau	Ysgol Gynradd Llandybïe	Ysgol Gymraeg Rhydaman	Ysgol Bro Banw	Ysgol Ffairfach	Ysgol Feithrin Rhydaman	Ysgol Parcyrhun	Ysgol Gynradd Saron	Ysgol Gynradd Penygroes	
Lleoliad yr Ysgol	SA18 3BQ	SA18 3JB	SA18 2NS	SA18 2NF (Babanod) SA18 2NS (Iau)	SA19 6SY	SA18 2NS	SA18 3HB	SA18 3LH	SA14 7NT	
Sir	Sir Gaerfyrddin									
Ystod Oedran	4-11	3-11	4-11	4-11	4-11	3-5	4-11	4-11	4-11	
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyr, Gwirfoddol a Reolir)	C	C	C	C	C	C	C	C	C	
Categori Cyfrwng Iaith (CYBLD)	CC	TR	CC	DFf	CC	DFf	DFf	CC	CC	
Nifer disgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2020)	Meithrin	5	28	18	13	3	12	16	17	6
	Derbyn – B.6	28	201	270	402	95	93	195	240	165
	Cyfanswm	34	229	288	415 (ac eithrio'r Uned AAA)	98	105	211	257	171
Nifer disgyblion ar y gofrestr flaenorol yn	Ionawr 2019	36	238	296	409 (ac eithrio'r Uned AAA)	106	99	223	252	183
	Ionawr 2018	38	235	294	406 (ac eithrio'r Uned AAA)	98	95	216	175	182
	Ionawr 2017	50	230	277	399 (ac eithrio'r	102	78	214	229	181

Enw'r Ysgol		Ysgol Gynradd Blaenau	Ysgol Gynradd Llandybïe	Ysgol Gymraeg Rhydaman	Ysgol Bro Banw	Ysgol Ffairfach	Ysgol Feithrin Rhydaman	Ysgol Parcyrhun	Ysgol Gynradd Saron	Ysgol Gynradd Penygroes
					Uned AAA)					
	Ionawr 2016	55	223	276	413 (ac eithrio'r Uned AAA)	99	80	196	237	184
Amcanestyniad ynghylch Nifer y Disgyblion	Ionawr 2021	31	237	304	415	98	-	214	249	175
	Ionawr 2022	33	236	306	409	99	-	214	251	172
	Ionawr 2023	32	236	303	412	96	-	217	254	165
	Ionawr 2024	34	219	313	402	96	-	212	256	168
	Ionawr 2025	35	228	324	401	95	-	206	246	170
Nifer y lleoedd (yn cynnwys meithrin)		99	238	232	523	102	95	221	240	186
Cost fesul disgybl (2020/21)		£4,379	£3,732	£3,294	£5,650	£4,139	-	£4,636	£3,448	£3,468
Cyllideb Ysgol (2020/21)		£149k	£823k	£949k	£2,740k	£406k	-	£978k	£886k	£593k
Canlyniad Arolygiad Estyn		Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn	Estyn
Categori Cyflwr Adeilad		C	C	A	B	B	B	B	B	B

Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol

Ysgol Gynradd Blaenau

Arolygwyd Ysgol Gynradd Blaenau gan Estyn ym mis Ionawr 2016, gan farnu bod ei pherfformiad yn 'Ddigonol' a bod ei gallu i wella hefyd yn 'Ddigonol.' Yn sgil cynnydd yr ysgol ar sail yr argymhellion, cafodd yr ysgol ei thynnu ymaith o gategori 'Monitro Estyn' ym mis Mai 2017.

Ers hynny mae nifer y disgyblion wedi gostwng, gan arwain at addysgu'r disgyblion mewn dwy ystafell ddosbarth: un dosbarth cyfnod sylfaen ac un dosbarth cyfnod allweddol 2.

Yn dilyn dyrchafiad y pennaeth blaenorol yn ddiweddar, mae'r athro/athrawes cyfnod sylfaen wedi bod yn gweithredu fel y pennaeth dros dro ers Medi 2019. O ganlyniad, mae nifer y staff presennol wedi cael ei leihau'n sylweddol i 2 athro amser llawn ac un cynorthwydd addysgu amser llawn. Mae'r pennaeth dros dro yn cael 0.2 o amser digyswllt ar gyfer arwain a rheoli'r ysgol.

Safonau

Mae safonau llythrennedd yn amrywio ar draws yr ysgol ac mae hyn yn adlewyrchu ystod galluoedd y disgyblion. Tuag at frig cyfnod allweddol 2 (CA2), mae'r rhai mwy abl a thalentog yn dechrau ysgrifennu'n gynhwysfawr, yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion hyn yn gallu atalnodi eu gwaith yn dda gan ddefnyddio cromfachau, dyfynodau ac ebychnodau i greu effaith, sillafu'r rhan fwyaf o eiriau'n gywir a defnyddio ystod o eirfa i gyfoethogi eu gwaith disgrifiadol. Enghraifft o ysgrifennu o safon yn amlwg yn eu gwaith naratif ar Lyn y Fan. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion CA2 yn dibynnu'n fawr ar gymorth oedolion, yn enwedig wrth wneud tasgau ysgrifennu, ac mae eu sgiliau ysgrifennu'n annibynnol yn wael ar y cyfan. Nid yw'r cyfleoedd i ysgrifennu'n helaeth, faint maent yn ysgrifennu, na'r safon cyflwyno yn adlewyrchu eu hoed a'u gallu bob tro. Mae gwaith ysgrifennu yn y cyfnod sylfaen yn dangos bod y mwyafrif o'r disgyblion yn sillafu'n dda am eu hoedran, a bod ychydig iawn ohonynt yn dangos dealltwriaeth ffonetig dda. Mae disgyblion Cyfnod Sylfaen Uwch yn dechrau defnyddio ysgrifennu cyfarwyddiadol yn dda, er enghraifft, wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer arbrawf – 'Y Crochan Hud'. Mae'r disgyblion mwy abl a thalentog yn y Cyfnod Sylfaen yn dechrau amrywio'r ffordd maent yn dechrau brawddegau a cheir enghreifftiau da yn eu gwaith ffeithiol ar y wiwer. Mae safonau llafaredd Cymru wedi gwella'n gyffredinol ar draws yr ysgol, ac mae asesiadau diwedd CA2 gan athrawon yn dangos bod yr holl ysgolion wedi cyrraedd y lefel ddisgwylidig o ran llafaredd. Fodd bynnag, ni lwyddodd tua hanner ohonynt i gyrraedd y lefel ddisgwylidig o ran eu sgiliau darllen Cymraeg a Saesneg a'u sgiliau ysgrifennu Cymraeg. Mae canlyniadau sgôr safonedig ar gyfer darllen Cymraeg a Saesneg yn dangos nad yw'r sesiynau darllen dyddiol wedi effeithio ar safonau darllen, yn enwedig ar draws CA2.

Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth briodol o gysyniadau mathemategol yn ôl eu hoed a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigonol yn CA2 ac nid ydynt yn cyd-fynd â lefel y gwaith sy'n amlwg yn eu gwaith mathemategol. Mae'r ychydig iawn o

ddisgyblion mwy abl a thalentog yn y cyfnod sylfaen uwch yn gweithio'n llwyddiannus ar ddeilliannau uwch. Er enghraifft trwy ymrannu rhifau 4 digid, cofnodi arian gan ddefnyddio'r pwynt digidol i ddangos punnoedd a cheiniogau a thrwy fesur i'r hanner centimetr agosaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu sgiliau ymchwil annibynnol addas. Er enghraifft, wrth gasglu gwybodaeth am ddraenogod. Gallant ddefnyddio ystod o adnoddau a meddalwedd TGCh i gyflwyno'u canfyddiadau. Er enghraifft, *book creator, popplet, JiT, J2e* a *powerpoint*. Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion sgiliau TGCh priodol ac mae'r rhain yn datblygu'n dda yn y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, yn CA2, collir cyfleoedd i ddatblygu sgiliau TGCh disgyblion. Er enghraifft, ni wnaeth y disgyblion ddefnyddio offer sgrin werdd yr ysgol i gofnodi eu rheolau Tân Gwylt. Y llynedd roedd yr ysgol wedi cydnabod yr angen i ddatblygu'r defnydd o daenlenni ac elfen ryngweithio a chydweithio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Fodd bynnag, prin iawn yw'r effaith hyd yn hyn.

Dengys asesiadau athrawon fod bron pob un o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwylidig o'u manau cychwyn yn yr ysgol o ran eu datblygiad iaith Gymraeg a mathemateg. Erbyn diwedd CA2, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig neu'n well o ran datblygiad mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif ohonynt yn gwneud y cynnydd disgwylidig o ran Cymraeg a Saesneg.

Mae'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen wedi gostwng eleni o 100% i 66.7%. Mae hyn yn dangos sut y gall carfan fach iawn o 3 gael effaith negyddol ar ganrannau. Mae'r Dangosydd Pynciau Craidd yn dangos tuedd i ostwng ac mae'n is nag y bu ers 5 mlynedd. Mae perfformiad ar lefelau uwch yn debyg i ganlyniadau'r llynedd mewn Saesneg a Gwyddoniaeth, ond mae perfformiad ar L5+ wedi gwaethygu mewn mathemateg a Chymraeg.

Mae bechgyn CA2 yn tueddu i dangyflawni mewn iaith a mathemateg o'u cymharu â'r merched.

Mae asesiadau athrawon yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud y cynnydd disgwylidig o ran eu sgiliau darllen yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid yw sgoriau safonedig y profion darllen cenedlaethol yn adlewyrchu'r un cynnydd.

Erbyn diwedd CA2, roedd bron pob disgybl ADY yn cyrraedd y lefel ddisgwylidig neu'n well mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, ni lwyddodd hanner y disgyblion ADY i gyrraedd y lefel ddisgwylidig mewn Cymraeg a Saesneg. Mae cynnydd disgyblion ADY ar draws yr ysgol yn amrywio yn ôl asesiad athrawon.

Safonau Llesiant:

Mae gweithdrefnau diogelu priodol ar waith, ac, o ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion bron yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Ar y cyfan mae disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n gyfforddus yn siarad ag unrhyw athro os oes angen. Mae'r berthynas rhwng yr oedolion a'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gadarnhaol, ac mae llawer o ddisgyblion yn rhyngweithio'n briodol yn ystod gwersi. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn ymddiddori yn eu dysgu ac yn cyfrannu'n gadarnhaol yn ystod gwersi. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn dibynnu'n fawr ar gymorth oedolion i gwblhau tasgau'n llwyddiannus. Fel rheol mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ledled yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd byw'n iach ac o lesiant personol a chymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw sgiliau corfforol disgyblion yn cael eu datblygu'n llawn yn unol â'r cwricwlwm, ac mae diffyg cyfleusterau fel llecyn gwyrdd digonol a'r ardal fechan o darmac yn rhannol gyfrifol am hyn. Mae llawer o ddisgyblion heb fod yn arddangos sgiliau annibynnol da am eu hoedran ac nid oes ganddynt strategaethau pwrpasol i gefnogi eu dysgu.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae hanner yr addysgu ar draws yr ysgol yn anfoddhaol ar hyn o bryd ac mae'r disgyblion hyn yn destun addysgu gwael am 4 blynedd yn olynol ar draws eu taith addysg. Mae tua hanner y cynllunio heb fod yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion bob amser, gan gynnwys disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan yr ysgol y gallu ar hyn o bryd i ddarparu a rhoi sylw i ymyrraeth effeithiol i gefnogi anghenion pob grŵp o ddysgwyr.

Gweithiodd yr ysgol ar y cyd ag ysgolion eraill y llynedd i wella'r ddarpariaeth dysgu yn yr awyr agored, ond nid yw hyn wedi datblygu'n effeithiol nac fel y disgwyl hyd yma. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar ddarpariaeth y cyfnod sylfaen. Mae prosiect gwyddoniaeth y clwstwr wedi gwella'r ddarpariaeth a'r disgwyliadau o ran gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) wedi cael hyfforddiant llawn mewn Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion ac mae'n ymwybodol o'r trefniadau newydd ar gyfer y ddarpariaeth ADY. Mae proffiliau un dudalen ar gael ar gyfer pob disgybl ac mae'r ysgol wedi cael cyfarfodydd ynghylch Cynlluniau Datblygu Unigol. Mae gan yr ysgol weithdrefn briodol ar waith i olrhain cynnydd disgyblion a dadansoddi llesiant ychydig iawn o'i disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gyfyngedig oherwydd y lefelau staffio presennol. Caiff presenoldeb, ymddygiad ac unrhyw bryderon eraill eu monitro'n briodol gan y pennaeth dros dro. Mae presenoldeb wedi gostwng ychydig ers y llynedd o 95.5% i 94.29%. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol hefyd wedi gostwng i 93.84%. Mae'r ysgol yn cydweithio'n berthnasol ag asiantaethau allanol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oes gan yr ysgol bennaeth ac felly mae'r athro/athrawes cyfnod sylfaen wedi bod yn gweithredu fel y pennaeth dros dro ar gyfer tymor yr hydref yn unig. Ar hyn o bryd mae'r pennaeth dros dro yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant i benaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro, ac, o ganlyniad, mae ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o'r rôl yn

datblygu'n raddol. Mae'r pennaeth dros dro wedi nodi rhai meysydd i'w datblygu, ond mae angen mynd i'r afael â rhai meysydd eraill sydd o bwys.

Ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr ar draws yr ysgol yn cyfrannu'n ddigonol at y prosesau hunanwerthuso a phrin yw'r effaith ar safonau a deilliannau. O ganlyniad, mae llawer o feysydd i'w datblygu yn ystod y flwyddyn wedi gwneud cynnydd boddhaol ac yn parhau i fod yn feysydd i'w datblygu.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol â'r clwstwr o ysgolion, ond nid oes unrhyw bartneriaethau cydweithredol eraill ag ysgolion eraill wedi'u sefydlu ar gyfer eleni ac mae ffocws ar rannu arfer da a gwella safonau ar gyfer pob dysgwr.

Gwneir defnydd gwell o asesiadau a data perthnasol er mwyn cydnabod cynnydd ac anghenion y dysgwyr i gyd. Fodd bynnag, mae cynllunio penodol a phwrpasol i sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu a bod pob disgybl yn symud ar hyd y continwwm sgiliau yn parhau i fod yn faes i'w drafod ymhellach. Mae arweinwyr wedi addasu a rheoli ailstrwythuro staff yn dda o dan yr amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr yn aneffeithiol.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â rhai blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) a chyflwynodd y pennaeth blaenorol y safonau addysgu ac arweinyddiaeth newydd i'r holl staff addysgu drwy dargedau rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ar y ddarpariaeth a safonau, yn enwedig ar draws CA2.

Mae'r pennaeth dros dro, gyda chefnogaeth Cadeirydd y Llywodraethwyr, yn parhau i reoli agweddau ar danberfformio er mwyn sicrhau bod yr holl brofiadau addysgu a dysgu yn foddhaol o leiaf. Wedi dweud hynny, mae cyflymder y cynnydd yn gyfyngedig. Mae'r ysgol yn ymwybodol bod yr angen i fynd i'r afael â lefel yr her ar draws yr ysgol yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu.

Effaith y cynnig

Mae safonau'n gostwng yn gyflym yn Ysgol Blaenau felly bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar safon yr addysgu a'r dysgu a gaiff y disgyblion.

Mae Ysgol Llandybïe wedi penodi pennaeth newydd yn ddiweddar, sydd wedi sicrhau bod gweledigaeth gadarn a chydweithredol ledled yr ysgol, gan ganolbwyntio ar godi safonau a diwallu anghenion penodol disgyblion yn dda.

Yn ogystal, mae'r addysgu yn dda mewn nifer o wersi. Mae'r broses o rannu syniadau ac arferion da wedi cael effaith gadarnhaol ar sicrhau ymagwedd gyson at addysgu ar draws yr ysgol, gan leihau'n briodol amrywiad yn yr ysgol.

Ysgol Gynradd Llandybïe

Cafodd Ysgol Gynradd Llandybïe ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Medi 2013, pryd yr adroddwyd bod y tri chwestiwn yn 'Dda'.

Adroddir y cynnydd a wnaed ers hynny isod:

Safonau

Yn ystod taith ddysgu ddiweddar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu siarad yn hyderus ac yn gallu mynegi barn yn glir. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen mae llawer o ddisgyblion yn gallu egluro eu gwaith â brwdfrydedd, wrth iddynt datblygu eu sgiliau creadigol wrth greu collage am gestyll. Mae llawer yn gallu cofio'r stori gan ddefnyddio strategaethau *Pie Corbett* ac maent yn datblygu eu sgiliau ysgrifennu'n annibynnol yn hyderus, wrth iddynt ysgrifennu dyddiadur am ddiwrnod Beti Bwt. Mae ambell un yn gallu hunanasesu'n effeithiol wrth iddynt ddarllen dros eu gwaith i gywiro unrhyw wallau.

Mae nifer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn llwyddiannus wrth gynllunio i ysgrifennu adroddiad am eu profiadau yn dilyn trip i Barc Dinefwr. Mae nifer yn gallu gweithio'n hyderus ar batrymau rhif gan eu bod yn defnyddio'r waliau dysgu yn effeithiol i symleiddio ffracsiynau.

Fodd bynnag, mae'r holl ddisgyblion bron yn gallu esbonio'r hyn maent yn ei ddysgu ac yn dangos balchder mawr yn eu gwaith.

Mae'r ysgol wedi gwella ei pherfformiad yn y cyfnod sylfaen o gymharu â 2018. Mae'r ysgol wedi perfformio'n well na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol yn holl ddangosyddion y cyfnod sylfaen ar wahân i iaith lle mae wedi gwneud y cynnydd disgwylidig neu'n well wrth ystyried ei gwaelodlin. Mae'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael cymorth ymyrraeth buddiol trwy ddefnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion, ac mae'r canlyniadau'n dangos bod llawer o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â phlant nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn y cyfnod sylfaen, gan wneud cynnydd da. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r holl ddisgyblion wedi gwneud y cynnydd disgwylidig yn yr holl ddangosyddion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim.

Mae deilliannau cyfnod allweddol 2 wedi amrywio dros y 3 blynedd diwethaf. Er enghraifft, mae perfformiad ar lefel 4 mewn Saesneg wedi gwella dros y 3 blynedd diwethaf ac mae'r canlyniadau Cymraeg wedi gwella ers y llynedd, gan gyfateb i ddata'r flwyddyn flaenorol. Er bod data mathemateg a gwyddoniaeth L4 wedi gostwng eleni, maent yn parhau'n uwch na data 2017. Mae perfformiad ar y lefelau uwch wedi dangos tuedd o welliant dros 3 blynedd, ac mae'n uwch na chyfartaledd yr ALI yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, ar wahân i Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwylidig yn y rhan fwyaf o ddangosyddion ar wahân i Gymraeg, lle mae llawer yn gwneud cynnydd y disgwylidig neu'n well na hynny.

Ym mhob maes mae'r bwllch rhwng cyrhaeddiad y bechgyn a'r merched wedi lleihau, ac yng nghyfnod allweddol 2 roedd y bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched yn y dangosydd pwnc craidd ac mewn gwyddoniaeth. Ym mhob maes mae'r bwllch rhwng cyrhaeddiad y bechgyn a'r merched wedi lleihau, ac yng nghyfnod allweddol 2 roedd y bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched yn y dangosydd pwnc craidd ac mewn gwyddoniaeth.

Y ganran bresenoldeb ar gyfer 2018-19 oedd 94.78%, sy'n gynydd o 0.77% ers y llynedd. Mae'r ysgol yn parhau i weithredu prosesau cadarn i olrhain, monitro a gwella presenoldeb disgyblion.

Addysgu a Phrofiadau Dysgu

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda oherwydd y disgwyliadau uchel a bennir gan yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn cymryd diddordeb yn y gwersi, gan eu bod yn cael gwaith thematig cyffrous a diddorol i gefnogi a datblygu eu sgiliau rhifedd, llythrennedd a TGCh. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn fwy hyderus wrth siarad yn Saesneg. Fodd bynnag, mae sgiliau siarad Cymraeg llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol.

Mae bron pob athro/athrawes yn modelu patrymau iaith effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn rhan weithredol o'u dysgu, gan gyfrannu eu syniadau at beth maent am ei ddysgu a sut maent am wneud hynny. Mae'r addysgu yn dda mewn llawer o wersi ac mae ffocws clir ar rannu arfer da er mwyn sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys staff cymorth, yn cael cyfleoedd i arsylwi ar ei gilydd yn addysgu. Mae'r broses o rannu syniadau ac arferion da wedi cael effaith gadarnhaol ar sicrhau ymagwedd gyson at addysgu ar draws yr ysgol, gan leihau'n briodol amrywiad o fewn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn rheoli tanberfformio mewn modd pendant a chefnogol.

Gofal, Cymorth ac Arweiniad

Mae'r ysgol wedi ffurfio perthnasoedd cryf a chadarn â rhieni, gofalwyr a'r gymuned fel partneriaid yn y broses addysg. Er enghraifft, wrth weithio'n agos gyda chartref gofal yn rheolaidd, gan gryfhau a datblygu cysylltiadau cymunedol ymhellach. Mae hyn wedi cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant disgyblion yn ogystal â phreswylwyr y cartref. Hefyd, mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau cryf â'r eglwys leol eleni ac mae llawer o ddisgyblion wedi cyfrannu mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd at waith yr eglwys, megis creu arddangosfa flodau ar gyfer gŵyl y cynhaeaf, plannu bylbiau ar diroedd yr eglwys, a chanu mewn gwasanaeth cynhaeaf.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da o ran y bil trawsnewid ADY, wrth iddi ganolbwyntio ar fod yn ysgol cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion. O ganlyniad, mae anghenion emosiynol yr holl ddisgyblion bron yn cael sylw priodol, fel eu bod yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a chydnerth.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Dechreuodd y pennaeth newydd yn ei swydd yn nhymor yr hydref, yn dilyn blwyddyn fel pennaeth dros dro. Mae hi wedi sicrhau bod gweledigaeth gydweithredol gref yn datblygu ar draws yr ysgol, gan ganolbwyntio ar godi safonau a bodloni anghenion penodol disgyblion yn dda. Mae dau athro/athrawes uwch a benodwyd yn ddiweddar fel penaethiaid cynorthwyol yn meithrin gallu i arwain yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn myfyrio gyda'i gilydd sut mae gwneud eu dysgu eu hunain yn fwy grymus. Mae llawer o'r staff yn teimlo'n gyffyrddus yn ceisio cyngor oddi wrth ei gilydd. Mae ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd yn werthoedd craidd o fewn yr ysgol. Mae'r model arweinyddiaeth wasgaredig wedi rhoi cyfleoedd datblygu proffesiynol da i'r holl staff ledled yr ysgol, sydd â chyfrifoldeb penodedig yn unol â'r meysydd dysgu a phrofiad newydd. Mae'r ysgol yn dechrau ar ymholiadau i ymchwilio ac ymestyn ei harferion. Er enghraifft, wrth iddi dreialu'r prosiect iaith i lythrennedd ar draws y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

Mae strwythurau ar gyfer deialog a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd yn gweithio'n effeithiol. Er enghraifft, mae cyfarfodydd ar ôl ysgol yn cynnwys rhannu arfer da a grwpiau o staff yn gweithio fel tîm i gymedroli gwaith disgyblion. Mae'r holl staff yn trafod ac yn gwerthuso'n rheolaidd a yw'r camau'n cael yr effaith a ddyhëir ac yn llwyddo i newid pethau os oes angen. Er bod y staff wedi sefydlu prosesau monitro cadarn, mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i sicrhau bod datblygiad sgiliau unigol disgyblion yn cael ei nodi a'i olrhain yn agosach.

Mae rhai o'r staff wedi dechrau cydweithio, dysgu a chyfnewid gwybodaeth â chyfoedion mewn ysgolion eraill drwy rwydweithiau a gwaith ysgol i ysgol. Er enghraifft, mae cydlynedd y cyfnod sylfaen wedi rhannu arfer da gydag ysgolion eraill ac mae rhwydweithio cydweithredol anffurfiol parhaus yn digwydd ledled ysgolion yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu fel sefydliad dysgu.

Mae prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn amlygu gwybodaeth gywir am yr ysgol, ac mae cyswllt clir rhwng prosesau hunanwerthuso a chynllun datblygu'r ysgol. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at gynnydd gwell gan ddisgyblion yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu.

Mae systemau rheoli perfformiad pendant ar waith. Cysylltir targedau â Chynllun Datblygu'r Ysgol a'r safonau addysgu proffesiynol newydd. Mae'r addysgu yn dda mewn llawer o wersi ac mae ffocws clir ar rannu arfer da er mwyn sicrhau bod yr holl staff, gan gynnwys staff cymorth, yn cael cyfleoedd i arsylwi ar ei gilydd yn addysgu. Mae'r broses o rannu syniadau ac arferion da wedi cael effaith gadarnhaol ar sicrhau ymagwedd gyson at addysgu ar draws yr ysgol, gan leihau'n briodol amrywiad o fewn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn rheoli tanberfformio mewn modd pendant a chefnogol.

Mae'r pennaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r llywodraethwyr am gynnydd yn rheolaidd, ac mae lleiafrif o'r llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn effeithiol ac yn fedrus. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd llywodraethwyr yn llwyddiannus i roi gwybodaeth i eraill. Mae hyn yn ei dro yn gwella'r gallu sydd gan y llywodraethwyr i gyd i herio'r ysgol yn gyson.

Effaith y cynnig

Byddai'r disgyblion a'r staff yn elwa'n fawr ar ysgol newydd o safon Sir Gaerfyrddin â chyfleusterau ar gyfer yr 21^{ain} ganrif, gan fod adeilad presennol yr ysgol o gyflwr gradd C ac nid yw'r cyfleusterau'n ddigon da.

Bydd safle newydd ag adnoddau gwell yn gwella profiadau dysgu'r disgyblion yn ogystal â gwella llesiant staff a disgyblion.

Ar hyn o bryd cyfyng yw'r ystafell athrawon, a bydd adeilad newydd yn sicrhau cydweithio effeithiol rhwng staff a phartneriaethau allanol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da ar hyn o bryd a bydd adeilad newydd yn sicr o gymorth i gynnal a chodi safonau ymhellach.

Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Llywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Â phwy yr ymgynghorir?

Anfonir y ddogfen hon at y partiön canlynol sydd â diddordeb, sef:

Staff (Athrawon a Staff Atodol)	Cyfarwyddwyr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos
Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid	Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig
Cynghorwyr Sir Lleol	Estyn
Cynghorwyr Cymuned	Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
Aelodau o'r Senedd (AS) / Aelodau Rhanbarthol / Aelodau Seneddol (AS)	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Yr holl undebau perthnasol
Partneriaid AAA	Comisiynydd y Gymraeg
Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol
ERW – Ein Rhanbarth ar Waith	Dechrau'n Deg
	Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar
Cymunedau am Waith a Mwy	Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymunedau am Waith	Y Gronfa Waddol
Cyfuno	Teuluoedd yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin

****Anfonir copiâu o'r ddogfen ymgynghori at Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yr ysgolion yn nalgylch cyfagos yr ysgolion sy'n destun y cynigion.***

Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 11 Ionawr 2021 ac yn dod i ben ar 21 Chwefror 2021.

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno ar dudalen 33.

Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod neu drwy lenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

[Arolwg Snap](#)

Dylid anfon llythyrau i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar 21 Chwefror 2021:

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB
Neu drwy e-bost at: aaprma@sirgar.gov.uk

Sesiynau galw heibio

Oherwydd goblygiadau parhaus y pandemig Coronafeirws, cynhelir y sesiwn galw heibio ar ffurf rithwir drwy Microsoft Teams ar 26 Ionawr 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn addas i chi, gallwn gynnig dulliau cyfathrebu amgen fel e-bost neu alwad ffôn.

Os hoffech ddod i'r sesiwn galw heibio rithwir, cysylltwch â Miss Isabelle Mariani/Mrs Sharon James drwy'r cyfeiriad ebost uchod i fynegi eich diddordeb erbyn 20 Ionawr 2021.

Ymgynghori â Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Adroddiad Ymgynghori

Bydd adroddiad ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr

adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Cyfnod Gwrthwynebu Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os derbynnir gwrthwynebiadau cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

Penderfynu ar y Cynnig

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartion sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a'r amserlen fel a ganlyn:

11 Ionawr 2021	Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.
21 Chwefror 2021	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant.
27 Ebrill 2021	<p>Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.</p> <p>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.</p> <p>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.</p> <p>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.</p>
8 Mehefin 2021	Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.
Gorffennaf 2021	<p>Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.</p> <p>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.</p>

Atodiad A – Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

Ysgol Gynradd Blaenau

Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2020

Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Gynradd Blaenau yn dangos, o'r 34 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 8 yn byw yn y dalgylch a bod y 26 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd 36 o'r disgyblion oedd yn byw yn dalgylch Ysgol Gynradd Blaenau yn mynychu ysgolion eraill.

Gan gymryd i ystyriaeth yr 8 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sy'n mynychu Ysgol Gynradd Blaenau, a'r 36 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 44 o ddisgyblion sy'n byw yn dalgylch Ysgol Gynradd Blaenau.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / llyfrgell gymunedol

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cynnal clwb brecwast i ddisgyblion rhwng 8:10am a 8:50am. Mae clwb ar ôl ysgol, a gynhelir rhwng 3:30pm a 5:30pm ar ddydd Iau a dydd Gwener, hefyd ar gael i ddisgyblion.

Ar hyn o bryd mae Mudiad Meithrin yn gweithredu o'r ysgol rhwng 9am a 3pm yn ystod yr wythnos. Mae'r Meithrin yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion o ddwy oed.

Effaith ar y Gymuned

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd yn gwella mynediad cymuned Blaenau i gyfleusterau addysgu a dysgu a chymunedol sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif.

Ysgol Gynradd Llandybïe

Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2020

Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Gynradd Llandybïe yn dangos, o'r 229 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 180 yn byw yn y dalgylch a bod y 49 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd 140 o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Llandybïe yn mynychu ysgolion eraill.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / llyfrgell gymunedol

Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn cynnal clwb brechwast i ddisgyblion yn ystod dyddiau'r wythnos rhwng 8:10am a 8:40am.

Mae 'Clwb Carco' hefyd ar gael i ddisgyblion Llandybïe, sy'n cynnig gofal cofleidiol o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 12pm.

Mae clwb gofal ar ôl ysgol, a gynhelir o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 3:15pm a 5:30pm, hefyd ar gael i ddisgyblion.

Effaith ar y Gymuned

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd i gael mynediad i leoedd addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yn ardal Llandybïe, yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol.

Atodiad B – Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Mae'r cynnig hwn yn ategu gweledigaeth ac amcanion y Cyngor ynghylch addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r hyn a nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Sir Gaerfyrddin, 2017–2020. Bydd y cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Llandybïe gan sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ysgol Gynradd Blaenau

Safonau*

Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu hasesu mewn gwahanol feysydd dysgu. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 66.67% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 mewn 'laith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)', ac roedd 33.33% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Ddeilliant 6. Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 57.14% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg laith Gyntaf ac roedd 14.29% wedi cyrraedd o leiaf Lefel 5.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r ysgol wedi rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan yng nglwb yr Urdd a 'chlwb ffrindiau' o'r blaen gyda'r nod o gefnogi'r Gymraeg.

Yn ogystal, mae Mudiad Meithrin yn gweithredu o'r ysgol, gan ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion o ddwy oed.

Ysgol Gynradd Llandybïe

Safonau*

O ran y Gymraeg mae safonau'r ysgol wedi gwella yn y cyfnod sylfaen o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae deilliannau CA2 wedi bod yn amrywiol, ond mae cynnydd yn y Gymraeg wedi gwella gyda llawer yn gwneud y cynnydd disgwylidig neu'n well na hynny.

Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Rhoddir cyfle i ddisgyblion yr ysgol fynd i wersyll haf yr Urdd yn Llangrannog, sy'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau.

Mae 'Siarter Iaith' ar waith gan Ysgol Gynradd Llandybïe er mwyn annog defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio tuag at wobwr efydd, arian neu aur, gan annog cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol – disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ysgol a'r gymuned ehangach.

*Ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau Athrawon Cenedlaethol yn 2020 oherwydd effaith barhaus yr achosion o Goronafeirws. Am y rheswm hwn, dangoswyd data 2019.

Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n

ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiau a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau


Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiau, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol



Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1

Adran: Addysg a Phlant	Cwblhawyd gan (arweinydd): Sara Griffiths	Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Hydref 2020 Dyddiadau adolygu: Gorffennaf 2021
Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)	Cynnig yw hwn i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Blaenau a Llandybie. Bydd y cynllun yn adleoli Ysgol Gynradd Llandybie i safle newydd gyda buddsoddiad i ddarparu mwy o leoedd mewn adeilad ysgol newydd â chyfleusterau ar gyfer yr 21 ^{ain} ganrif a mannau awyr agored rhagorol. Fel rhan o'r cynllun hwn, y cynnig yw cynyddu nifer y lleoedd yn yr ysgol i 315 a darpariaeth ar gyfer 45 o leoedd meithrin.	
A yw'r swyddogaeth/polisi, y weithdrefn, yr arfer neu'r penderfyniad dan sylw yn bod eisoes neu a yw'n un newydd?	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestrwch yn unig)		
<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Y Rhaglen Moderneiddio Addysg • Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 • Data CYBLD 2020 • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 		

1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad arfaethedig a phwy fydd yn cael budd ohonynt.	Nod y cynnig yw creu addysg gynradd gynaliadwy ar gyfer y tymor hir yn ardaloedd Blaenau/Llandybie, cyfleusterau addas ar gyfer yr 21 ^{ain} Ganrif yno, a lleoedd digonol ar gyfer disgyblion yn awr ac yn y dyfodol. Bydd y cynnig hwn yn cynyddu capasiti a nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Llandybie ac yn dilyn yr amcanion a'r camau gweithredu fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Bydd y cynllun yn rhoi adeilad ysgol newydd i ddisgyblion a staff Ysgol Gynradd Llandybie a chyfleusterau sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21 ^{ain} Ganrif.
---	---

<p>Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-</p> <p>(1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;</p> <p>(2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a</p> <p>(3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y nodiadau esboniadol)</p>		<p>2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolog, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.</p>	<p>3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchoddedig?</p>		<p>4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?</p>
			<p>Risgiau</p>	<p>Effeithiau Cadarnhaol</p>	
<p>Nodweddion gwarchoddedig</p>	<p>Oedran</p>	<p>Effaith fach</p>		<p>Bydd y cynnig yn darparu adeilad ysgol newydd i ddarparu ar gyfer disgyblion 3-11 oed yn adeilad yr ysgol.</p>	
	<p>Anabledd</p>	<p>Effaith fach</p>		<p>Bydd adeilad newydd yr ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gan sicrhau</p>	

			hygyrchedd llawn i bawb.	
Ailbennu rhywedd	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
Hil	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
Crefydd/Cred	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
Beichiogrwydd mamolaeth a	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
Rhyw	Dim effaith o gwbl	Niwtral		
Yr Iaith Gymraeg	Effaith fach		Bydd y cynnydd yn nifer y lleoedd yn cynnig mwy o gyfleoedd i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Llandybie yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol.	
Unrhyw faes arall	Effaith fach		Ni fydd y cynnydd yn nifer y lleoedd yn yr ysgol yn cael effaith ar yr ysgolion sy'n amgylchynu dalgylch	

				Ysgol Llandybïe.	Gynradd	
--	--	--	--	---------------------	---------	--

5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol?		DO <input checked="" type="checkbox"/>	NADDO <input type="checkbox"/>
		Mae'r Swyddog Prosiect wedi cysylltu â Phennaeth, Staff a Rhieni Ysgol Gynradd Blaenau a Ysgol Gynradd Llandybïe o ran y cynnig. Ymgynghorir yn llawn â'r holl randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.	
6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses statudol.			
7. Caffael Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? DDIM YN BERTHNASOL Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.			
8. Adnoddau Dynol Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Gan y bydd cynnydd yn nifer y lleoedd, mae'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol. Fodd bynnag, rhoddir sylw i hyn wrth i'r cynllun ddatblygu, a byddwn yn ymgynghori'n llawn ag Adnoddau Dynol.			
9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)		DYLID <input type="checkbox"/>	NA <input checked="" type="checkbox"/> DDYLID
Cymeradwywyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth	Simon Davies	Dyddiad: Hydref 2020	

Atodiad D – Dwyieithrwydd

Manteision Dwyieithrwydd

Beth yw ystyr bod yn ddwyieithog?

Y gallu i fyw eich bywyd bob dydd yn defnyddio dwy iaith.

Y gallu i newid o un iaith i'r llall yn rhugl a hyderus pan fyddwch yn dymuno.

Manteision bod yn ddwyieithog

Addysg

- Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus mewn addysg. Maent yn tueddu i gyflawni'n well mewn tasgau.
- Mae pobl ddwyieithog yn ei gweld yn haws i ddysgu ieithoedd ychwanegol.
- Mae plant mewn addysg Gymraeg yn gwneud gystal, os nad gwell, yn Saesneg â phlant sy'n cael addysg Saesneg.

Tystiolaeth: [Adroddiad Thematig Estyn - Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog](#)

Gyrfa


- Mae siarad dwy iaith yn rhoi sgil arall i'w roi ar eich ffurflen gais a'ch CV.
- Ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% o gyflog ychwanegol.
- Mae angen gweithleoedd dwyieithog ar gyflogwyr, gan fod angen darparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn unol â'r Papur Safonau Cymraeg.

Tystiolaeth: [Erthygl ar Wales Online - Welsh Speakers 'more likely to get top qualifications and jobs'](#)

Nigel Owens

“ Without my Welsh education in School I would not have had all the opportunities to present and perform and I would not have been encouraged to start as a referee at 16 years old.

I carry Welsh with me wherever I referee in the world. Before each game I listen to Welsh music. I'm lucky enough to have two languages and Welsh is an important part of who I am. ”



Alex Jones

“ Having a bilingual education has been pivotal to me in so many ways. It meant that I had twice as many opportunities, it doubled my capacity to learn other languages, it enhanced my ability to communicate and therefore make friends, and most importantly, it gave me a strong sense of belonging and of our heritage. Starting out as a broadcaster in Welsh gave me the vast experience I needed to move forward to my dream job. Without a bilingual education, I'd be in a very different place. ”



Iechyd

- Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn gohirio dechreuad Dementia a symptomau eraill clefyd Alzheimer.

Tystiolaeth: [Erthygl - Delaying the onset of Alzheimer's disease: Bilingualism as a form of cognitive reserve](#)

[Erthygl o'r Telegraph- Bilingual people twice as likely to recover from a stroke](#)

Bywyd

- Mae siarad dwy iaith yn ehangu eich gorwelion.
- Mae medru'r Gymraeg yn rhoi mynediad i agweddau helaeth ar ddiwylliant, hanes a hunaniaeth Cymru.
- Mae medru'r Gymraeg yn allwedd i fywyd cymunedol cyfoethog.

- Mae medru'r Gymraeg yn rhoi hunaniaeth gadarn ac ymdeimlad o berthyn.
- Mae medru newid o un iaith i'r llall yn hyderus yn magu hyder a balchder yn yr unigolyn.
- Gall pobl amlieithog fod yn fwy goddefgar tuag at ddiwylliannau eraill.

Tystiolaeth: [The Advantages of Bilingualism in Welsh and English by Colin Baker](#)

Pryderon cyffredin rhieni

'Sut alla i helpu gyda gwaith cartref fy mhlentyn os nad ydw i'n deall llawer o Gymraeg?'

Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plentyn ei wneud. Bydd pob ysgol unigol yn fodlon cynnig cyngor ar addysg a bydd y nosweithiau rhieni yn eich dewis iaith chi.

Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe fydd, felly, o fewn cyrraedd i'ch plentyn.

Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, efallai y byddant yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol gan rieni.

'A fydd disgyblion sy'n cael trafferth ag addysg cyfrwng Cymraeg yn gorfod symud i ysgol cyfrwng Saesneg?'

Mae'r Awdurdod Lleol am i bob disgybl gael y cyfle i ddod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg bydd disgyblion yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bydd Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng addysgu. Rhoddir cymorth digonol i'r holl ddisgyblion yn ôl yr angen drwy amrywiaeth o ddulliau gan eu haddasu at anghenion yr unigolyn.

'A fydd bod yn ddwyieithog yn effeithio ar feddwl fy mhlentyn?'

Yr ateb yw 'bydd', a hynny mwy na thebyg er gwell. Mae presenoldeb dwy iaith yn system weithredu'r ymennydd yn debygol o gynhyrchu peiriant meddwl ag adnoddau mwy cyfoethog (Baker, 2000:66-67).

'A fydd fy mhlentyn yn gallu ymdopi â dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?'

Mae'r ysgol a'r staff wedi ymrwymo'n llawn i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r holl ddisgyblion a rhieni drwy amrywiaeth eang o ddulliau: polisi drws agored; darparu gwaith cartref yn ddwyieithog; cefnogaeth gan Wasanaeth yr Athrawon Bro; gwefan ysgol ddwyieithog ac ati. Hefyd mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol pan fo'r angen i ddiwallu anghenion pob disgybl.

‘A ddylid gorfodi'r Gymraeg?’

Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin yn ogystal â datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Mae hyn yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol.

‘A fydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithio ar gyfleoedd yn y dyfodol?’

Yr ateb yw 'bydd', ond mwy na thebyg er gwell. Barn yr adran, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod pob plentyn yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith a chydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mwyfwy o fantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.

‘A yw dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gwahanu disgyblion/teuluoedd sy'n siarad Saesneg?’

I'r gwrthwyneb, mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi cyfle i'r holl blant fod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael ysgol gynradd. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mae'r plant yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, a bydd Saesneg yn bwnc a ddysgir yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn gyfrwng addysgu. Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn helpu aelodau'r gymuned/teulu drwy roi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

‘A fydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?’

Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Mae modd gwneud hyn yn y rhan fwyaf o ddigon o'r achosion, sydd o fudd i'r holl blant. Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni.

Canolfannau Iaith Sir Gaerfyrddin

Oherwydd natur y sir mae angen inni ddarparu gwasanaeth iaith i'r holl hwyrddyfodiaid fel y gallant gael eu cymhathu'n llawn yn ein cymunedau dwyieithog a chael eu trochi yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen inni fynd i'r afael â phwysigrwydd cyfleusterau pwrpasol i helpu hwyrddyfodiaid i gyrraedd lefel lle gallant integreiddio'n hawdd i'r amserlen ddyddiol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dengys ymchwil drylwyr fod modd cyflawni hyn yn haws drwy gyrsiau iaith dwys. Canolfannau iaith yw'r cyfrwng sydd ei angen i wireddu hyn. Fel y crybwyllwyd uchod, bydd y canolfannau iaith hefyd yn darparu cymorth iaith i rieni a disgyblion ac yn cynnig darpariaeth ar gyfer dysgu proffesiynol a Chymraeg i Oedolion.

Dwyieithrwydd yn Sir Gaerfyrddin

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:

- **Cymraeg gyda'r plant / Welsh with your kids- give it a go!**

[Llyfryn - Cymraeg gyda'r plant / Welsh with your kids - rhwch gynnig arni!](#)

Yn y llyfryn hwn gwelwch nifer o eiriau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol y gellir eu defnyddio i ymarfer y Gymraeg gyda phlant ifanc. Bydd hyn yn eu helpu i siarad yn naturiol ac yn hyderus.

- **Bod yn Ddwyieithog... yn Sir Gâr / Being Bilingual... in Carmarthenshire**

[Llyfryn - Bod yn Ddwyieithog... yn Sir Gâr / Being Bilingual... in Carmarthenshire](#)

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio ystyr bod yn ddwyieithog yn ogystal â thynnu sylw at fanteision bod yn ddwyieithog mewn meysydd megis addysg, gyrfa, iechyd a bywyd. Yn ogystal, yn y llyfryn hwn cewch atebion i nifer o bryderon cyffredin rhieni ynghylch y Gymraeg.

- **Croeso i Gymru Croeso i Sir Gâr Croeso i'r Gymraeg**

[Llyfryn - Croeso i Gymru Croeso i Sir Gâr Croeso i'r Gymraeg](#)

Paratowyd y llyfryn hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin i groesawu newydd-ddyfodiaid i'w sir ddwyieithog. Yn y llyfryn cewch wybodaeth am sut y defnyddir y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â manylion am ble y gallwch gael cymorth o ran y Gymraeg a gwefannau defnyddiol i ddatblygu eich Cymraeg.

